



Llwybr Harford



Taith 3 Llwybr Harford

Taith hawdd, 1.5 milltir – 2.5 cilomedr, un awr

Cychwyn yn Trefil Machine (SO 147 116).

Trowch i'r dde i lawr lon Nant y Crofft. Mae hwn yn dilyn taith Rheilffordd Rhasau a adeiladwyd yn 1796 i gysylltu Chwareli Trefil gyda Gwaith Haearn Cendl. **Ar ôl 100m byddwch yn mynd heibio Gorsaf Trefil ar y dde (Station House erbyn hyn) gyda'r Castle Inn gyferbyn.** **Ar ôl 200m arall ewch o dan yr A465** – lein Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni o 1859.

Cariwch ymlaen yn syth i lawr Rheilffordd Rhasau am ychydig dros 1km.



Rheilffordd Rhasau



Melin Rholio

Yn gynnar yn y 19eg ganrif y ffos fechan ar y dde i chi oedd y ffin rhwng yr hen siroed Brycheiniog a Mynwy. Byddai ble'r ydych yn cerdded wedi bod ym mhlwy Llangynidr yn Sir Frycheiniog a byddai'r ochr arall i'r ffos ym mhlwy Bedwellte yn Sir Fynwy. Ychydig cyn y gyffordd gyda Alandale Road, fe welwch arwydd sy'n nodi "Tramroad Side", sy'n ein atgoffa o archeoleg ddiwydiannol y llain hon o'r ffordd!



Rheilffordd Rhasau

Ychydig cyn i chi ymuno gyda'r A4046 roedd y rheilffordd yn croesi Nant Rhasau ar bont fechan y gellir ei gweld ger rheiliau yn ymyl "Tai Bach" ychydig cyn y draphont fodern sy'n cario'r A4046.

O'r bont fechan cariwch ymlaen at yr A4047. Ar y chwith yn rhedeg y tu ôl i Rhyd y Blew Inn, roedd cangen o Reilffordd Trefil oedd yn rhedeg i Waith Haearn Cendl.




Tocyn Tryc Cendl

Nesaf at Rhyd y Blew Inn mae Capel Carmel.

Mae gwreiddiau'r capel yn mynd yn ôl i 1800. Ar y pryd, roedd gweinidogion annibynnol arfer a phregethu nawr ac yn y man yn y *Rhyd y Blew Inn* a gadwyd gan Mrs. Miles. Erbyn 1808, roedd gwasanaethau'n cael eu cynnal mewn ystafell wedi ei rhentu yn y *Refiners' Arms* am bum swllt y mis. Adeiladwyd Carmel yn 1821 am gost o £140 ar lecyn oedd yn cael ei ddefnyddio i ymladd ceiliogod. Ail adeiladwyd y capel yn 1829 ac erbyn 1851, roedd presenoldeb cyfartalog yn 517 yn oedfaon y bore a 616 yn y nos. Mae adeilad presennol y capel yn dyddio o 1865 a chafodd ei gynllunio gan y pensaer capeli pwysig y Parch. Thomas Thomas o Landore.

Yn ystod gwrthryfel y Siartwyr yn 1839, fe stopiodd mintai Rhasau y tu allan i Gapel Carmel a gofyn i'r gynulleidfa eu dilyn i Gasnewydd. Gwrthododd y gynulleidfa ac felly fe dorrodd y Siartwyr i mewn i'r *Beaufort Arms*, yn Beaufort Rise, gan fynnu cwrw a lladd ci y perchennog.

I ddilyn Rheilffordd Rhasau cymrwch y ffordd o flaen Rhyd y Blew Inn. Wrth fynediad maes parcio'r dafarn, croeswch y ffordd a dilyn y llwybr cerdded o'ch blaen. Rydych yn ôl ar lwybr Rheilffordd Rhasau. Dilynwch hwn am ychydig dan 1km i 'Shop Row' (y Clwb Badminton). Mae'r llwybr



Peiriant Trefil


yn rhedeg ochr yn ochr gyda ffordd. Hanner ffordd ar hyd y llwybr, gyferbyn â thai gwarchod "Glan yr Afon", fe welwch arwyddbost Great Western Railway bach crwn dyddiedig 1900 wedi ei osod ar lan yr afon fel testament i'r ffaith bod y lein wedi ei chymryd drosodd gan y GWR.



Arwyddbost y GWR

Yn 'Shop Row' fe ddewch at gylchfan fach ble gorwedda Siop Cwmni Gwaith Haearn Cendl ar y chwith. Y ffordd sy'n croesi trwy'r gylchfan o'r chwith i'r dde (Cendl Terrace) oedd Ffordd Dramiau Cendl. Cafodd ei newid yn rheilffordd lled safonol yn 1854 a daeth i gael ei adnabod fel Cangen

Cendl o Reilffordd Sir Fynwy. Cymerodd y GWR y cyfan drosodd yn 1880. Efallai mai ychydig o ddefnydd a welodd y rhan hwn o'r rheilffordd o Lyn Ebwy i Cendl ond roedd y rhan is yn bwysig iawn i Waith Dur Glyn Ebwy yn bellach i lawr y cwm, ac mae wedi cael ei ail agor ar gyfer gwasanaethu teithwyr.



Safle Gwaith Haearn Cendl, 1900

Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812 alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

